

Cynnwys

- 1 [Swyddfa'r Cabinet a'r Gwasanaethau Democrataidd](#)
- 2 [Gohebiaeth](#)
- 3 [Dyddiadur Cyrff y Cyngor](#)
- 4 [Ystafelloedd Pleidiau Gwleidyddol](#)
- 5 [Cerdyn Adnabod \(ID\)](#)
- 6 [Derbyn Post/Agendâu etc](#)
- 7 [E-bostio a Thâl Post](#)
- 8 [Microwefan Cynghorwyr \(SharePoint\)](#)
- 9 [Cefnogaeth Weinyddol](#)
- 10 [Gwasanaethau Llungopïo, Ffacsiô a Sganio](#)
- 11 [Cefnogaeth TGCh](#)
- 12 [Hyfforddiant](#)
- 13 [Cefnogaeth Cymorthfeydd Wardiau Etholiadol](#)
- 14 [Gwedudalennau](#)
- 15 [Ystafell Gyfarfod Cynghorwyr](#)
- 16 [Rhestr Gyswilt Mwy o Wybodaeth](#)

1 Swyddfa'r Cabinet a'r Gwasanaethau Democrataidd

Mae Swyddfa'r Cabinet yn cyflawni rôl cynorthwy-ydd personol i Aelodau (Gweithrediaeth) y Cabinet.

Mae Tîm y Gwasanaethau Democrataidd (GD) yn darparu cefnogaeth weinyddol gyffredinol i bob cynghorydd anweithredol.



2 Gohebiaeth

- 1 Fel rhan o raglen Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol, mae cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig wedi dod yn fwy hunangynhaliol. Yn sgîl yr agenda hunanwasanaeth, mae cynghorwyr wedi croesawu TG, meddalwedd gysylltiedig a system daliadau Oracle.
- 2 Disgwylir i gynghorwyr reoli eu negeseuon e-byst, eu dyddiadur a'u gohebiaeth eu hunain. Os bydd angen unrhyw gefnogaeth arnynt, gall y Tîm Hyfforddiant ddarparu hyfforddiant mewn rhai meysydd.
- 3 Gall Swyddfa'r Cabinet/Tîm y GD gynorthwyo â phrawf-ddarllen dogfennau ar gais.
- 4 Gall Swyddfa'r Cabinet/Tîm y GD anfon pyst cyffredinol nad ydynt yn wleidyddol ar gyfer gwaith ward etholiadol cynghorwyr. Fodd bynnag, disgwylir i gynghorwyr deipio'u llythyrau eu hunain er gall y timau gynorthwyo â fformatio. Bydd Swyddfa'r Cabinet/Tîm y GD yn trefnu i lythyrau gael eu hargraffu drwy DesignPrint, ond telir am unrhyw gostau plygu neu bostio o gyllideb gymunedol

cynghorwyr unigol.

- 5 Ni all Swyddfa'r Cabinet/Tîm y GD ymdrin â gohebiaeth sy'n wleidyddol, yn cynnwys gwybodaeth y gellid ei hystyried yn enllibus neu sy'n bersonol.



3 Dyddiadur Cyrff y Cyngor

- 1 Gellir gweld Dyddiadur Cyrff y Cyngor ar-lein yn <http://www.swansea.gov.uk/councildiary>
- 2 Bydd Swyddfa'r Cabinet yn cynorthwyo wrth reoli dyddiaduron ar gyfer Aelodau'r Cabinet. Disgwylir i'r holl gynghorwyr ac aelod cyfetholedig eraill reoli eu dyddiaduron eu hunain.



4 Ystafelloedd Pleidiau Gwleidyddol

- 1 Gan ddibynnu ar faint Plaid Wleidyddol, mae'n debygol y clustnodir ystafell ar ei chyfer. Darperir yr ystafelloedd â'r eitemau canlynol:
 - Blwch llythyrau lle gadewir eich agendâu, a'ch post etc. er mwyn i chi eu casglu;
 - Cyfrifiadur(on) personol;
 - Ffôn(au);
 - Cyfleusterau storio (2 ddrâr cabinet ffeilio fesul cynghorydd)
 - Celfi swyddfa.



5 Cerdyn Adnabod (ID)

- 1 Mae'n rhaid i gynghorwyr wisgo'u cerdyn adnabod drwy'r amser. Mae'r cerdyn hwn yn caniatáu mynediad i'r Ganolfan Ddinesig a Neuadd y Ddinas.
- 2 Os nad yw eich cerdyn adnabod yn caniatáu mynediad i chi, ewch i <http://www.swansea.gov.uk/staffnet/replacementflexicard>.
- 3 Os ydych yn colli'ch cerdyn neu wedi'i roi yn y lle anghywir, hysbyswch Swyddfa'r Cabinet/Tîm y GD ar unwaith. Bydd yr adran AD yn "blocio'r" cerdyn i sicrhau na chaiff ei ddefnyddio gan unrhyw un arall. Gellir archebu un newydd y bydd yn rhaid i'r cynghorydd dalu amdano (£5 ar hyn o bryd).
- 4 Gellir cael cardiau adnabod dros dro gan Dîm y GD ond rhaid eu dychwelyd ar yr un diwrnod cyn gadael yr adeilad.



6 Derbyn Post/Agendâu etc.

- 1 Caiff post sy'n cyrraedd, gan gynnwys agendâu ar gyfer cyfarfodydd y cyngor, ei ddosbarthu'n ddyddiol a'i adael mewn blychau llythyrau a ddarperir i bob cynghorydd.
- 2 Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn darparu gwasanaeth dosbarthu post i'r holl gynghorwyr ar nos Wener; fodd bynnag, gofynnir i gynghorwyr wneud ymdrech i gasglu unrhyw agendâu/bost yn uniongyrchol o'u blychau llythyrau er mwyn lleihau costau.
- 3 Mae nifer o gynghorwyr wedi dewis peidio â defnyddio'r gwasanaeth dosbarthu post. Maent wedi dewis casglu agendâu eu hunain a defnyddio'r ap Modern.gov i lawrlwytho fersiynau electronig o'r agendâu. Caiff agendâu eu hanfon yn uniongyrchol at bob cynghorydd drwy e-bost. Mae gwe-dudalennau'r cynghorwyr, democratiaeth ac etholiadau ar gael i'w gweld yn <https://democracy.swansea.gov.uk/uuCoverPage.aspx?bcr=1&LLL=1> .
- 4 **Os ydych am ddewis peidio â derbyn y Gwasanaeth Dosbarthu Post, hysbyswch Swyddfa'r Cabinet/Tîm y GD.**



7 E-bostio a Thâl Post

- 1 Cynghorir cynghorwyr i ddefnyddio gohebiaeth electronig lle bynnag y bo modd. Gall yr awdurdod anfon post ar ran cynghorwyr; fodd bynnag, ar gyfer swmp o bost, didynnir y gost o gyllideb gymunedol y cynghorwyr.
- 2 Ni fydd Swyddfa'r Cabinet/Tîm y GD yn argraffu'r holl e-byst i gynghorydd. Fodd bynnag, gellir trefnu hyfforddiant er mwyn addysgu cynghorydd sut i wneud hyn.



8 Microwefan Cynghorwyr (SharePoint)

Mae offeryn ar-lein "[microwefan](#)" penodol i gynghorwyr ar gael i ddangos gwybodaeth ddefnyddiol i gynghorwyr.



9 Cefnogaeth Weinyddol

- 1 Bydd y ddau dîm yn ateb ymholiadau ffôn cyffredinol gan aelodau'r cyhoedd, a'u cyfeirio lle y bo'r angen at y cynghorydd perthnasol neu'n darparu manylion cyswllt yr Aelod Cynulliad/Aelod Seneddol.

- 2 Bydd y ddau dîm yn gweithredu fel pwynt cyswllt canolog i gynghorwyr am eu hymholiadau cyffredinol ar gyfer adrannau ac yn darparu gwybodaeth am gysylltiadau swyddogion mewn adrannau gwasanaeth.



10 Gwasanaethau Llungopïo, Ffacio a Sganio

- 1 Mae dyfeisiau amlswyddogaethol ar gael mewn lleoliadau allweddol ledled yr awdurdod. Darperir cyfrif argraffydd i bob cynghorydd y gellir cael mynediad ato drwy gerdyn adnabod y cynghorydd. Sylwer na chaniateir argraffu deunydd personol.
- 2 Mae'r dyfeisiau amlswyddogaethol hefyd yn cynnwys cyfleuster sganio er mwyn sganio dogfennau a'u hanfon drwy e-bost.



11 Cefnogaeth TGCh

- 1 Gellir cysylltu â Desg Wasanaeth TGCh mewn dwy ffordd.
01792 63 6900 neu ict.servicedesk@swansea.gov.uk.



12 Hyfforddiant

- 1 Bydd yr awdurdod yn hysbysu cynghorwyr o gyfleoedd hyfforddiant neu'n trefnu hyfforddiant ar eu cyfer a fydd yn cynnwys cyrsiau, seminarau, cynadleddau a hyfforddiant sefydlu i bob cynghorydd a hyfforddiant arall yn amodol ar argaeledd adnoddau/cyllidebol.



13 Cefnogaeth Cymorthfeydd Wardiau Etholiadol

- 1 Bydd yr awdurdod yn talu ffi resymol am logi cymhorthfa, ar ôl i Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd gytuno ar hyn ymlaen llaw.
- 2 Dylid anfon anfonebau am gymorthfeydd ymlaen at Dîm y GD yn fisol neu'n chwarterol ac erbyn diwedd mis Mawrth y flwyddyn ariannol berthnasol ar gyfer eu prosesu.
- 3 Gall posteri sy'n dangos manylion cymorthfeydd gael eu hargraffu i'w dosbarthu yn y ward etholiadol.



14 Gwe-dudalennau

- 1 Cynghorir cynghorwyr i fanteisio ar yr adran "Amdanoch Chi" ar wefan y cyngor am ei bod yn rhoi cyfle i chi amlygu'ch diddordebau etc. Mae'r wybodaeth i'w chael yn www.abertawe.gov.uk/cynghorwyr.



15 Ystafell Gyfarfod Cynghorwyr

- 1 Ystafell Gyfarfod Cynghorwyr yw Ystafell 235, Neuadd y Ddinas. Mae lle i 12 i 14 o bobl eistedd o gwmpas y bwrdd.
- 2 Caiff yr ystafell ei neilltuo ar sail y cyntaf i'r felin a chyfyngir slotiau cyfarfodydd i 2 awr. Ni chaniateir archebion grŵp oni bai eu bod at ddiben megis cyfarfod plaid wleidyddol rheolaidd. Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn gweithredu protocol defnydd rhesymol ar gyfer yr ystafell.
- 3 Gellir archebu drwy ffonio Tîm y Gwasanaethau Democrataidd (GD) ar 01792 63 6923 neu e-bostio democratiaeth@abertawe.gov.uk.



16 Rhestr Gyswilt Mwy o Wybodaeth

Teitl	Ffôn:
Swyddfa'r Cabinet	01792 63 6141
Tîm y Gwasanaethau Democrataidd (GD)	01792 63 6923
Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd	01792 63 5757
Prif Weithredwr	01792 63 7501
Swyddog Adran 151	01792 63 6423
Swyddog Monitro/Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Democrataidd a Deallusrwydd Busnes	01792 63 6699
Desg Wasanaeth TG	01792 63 6900

